**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 2 MAWRTH 2023 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Janet Knott (Cadeirydd), Elfyn Williams, Shan Rees, Philip Davies, Eifion Jones, Jenny Jones, Carys Thomas, Rheinallt Jones, Meinir James, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng Viv Davies a Nicola Jones.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**
Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 2il Chwefror 2023.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Prosiect goleuadau yn Ysgol Gyfun Bro Myrddin** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Derbyniodd y Cyngor ymgynghoriad ar yr apêl gorfodaeth cynllunio mewn perthynas â’r cais hwn. Nodwyd.
3. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Derbyniodd y Cyngor wybodaeth am 3 ymweliad pellach â'r ardal nad oedd wedi arwain at godi unrhyw hysbysiadau tramgwyddau parcio. Nodwyd
4. **Dŵr yn rhedeg i Landyfaelog o'r briffordd yn achosi llifogydd** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
5. **FP29/4 Pentrepoeth** – Derbyniwyd gwybodaeth bellach mewn perthynas â gwaith posib ar y llwybr troed. Roedd y Cyngor Sir hefyd yn cysylltu â thirfeddianwyr mewn perthynas â'r mater. Nodwyd.
6. **Materion Gorfodaeth Cynllunio cae yn Idole –** Adroddodd y Cyngor Sir fod rhybudd gorfodaeth pellach wedi ei gyflwyno i'r tirfeddiannwr a disgwylir ymateb. Nodwyd.
7. **PL/04973 – Stad Ddiwydiannol Gelligaros, Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater
8. **Archwiliad o gyfrifon y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2022 –** Nododd y Clerc fod cyfrifon y Cyngor yn parhau i gael eu hystyried gan Archwilio Cymru. Nodwyd.
9. **Neuadd Gymuned Llandyfaelog –** Derbyniwyd diweddariad ar y gwaith a oedd pellach wedi'i gwblhau yn y Neuadd. Nodwyd.
10. **Prosiect Goleuadau Posibl yn Idole –** Derbyniodd y Cyngor bris am y gwaith hwn i ddarparu 1 golau ychwanegol yn y swm o £2,500.00. Cytunwyd na fyddai'r gwaith yn mynd yn ei flaen ac roedd y Clerc i wneud y preswylydd yn ymwybodol.
11. **Goleuedigaeth Sir Gaerfyrddin –** Darparwyd gwybodaeth pellach ar yr arwydd Cod QR ar gyfer Llandyfaelog. Nodwyd.

12. **Cyngor Sir Caerfyrddin – Ymgynghoriad ar y newidiadau arfaethedig i'r terfyn cyflymder 20mya –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
13. **Damweiniau ym Mancycapel –** Darparodd y Clerc y diweddaraf bod y Cyngor Sir yn ystyried camau gweithredu posibl y gellid eu cymryd yn yr ardal gyda gwybodaeth bellach i ddilyn. Nodwyd.
14. **Bin Capel Rama –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater.
15. **Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog -** Derbyniodd aelodau adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar $21^{ain}$ Chwefror. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar y $13^{eg}$ Fawrth. Nodwyd.
16. **Gwastraff bwyd a baw cŵn yn ardaloedd Heol y Lan a Lon yr Ysgol** – Roedd y Cyngor yn aros am ymateb ar y mater.

**6. Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru –** Cyfrifiad Diffibrilwyr. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi darparu'r wybodaeth gofynnwyd amdano. Nodwyd.
2. **Llywodraeth Cymru -** Adroddiad Adolygiad Gweinidogol o Chwarae a Phapur Cefndir. Nodwyd.
3. **Cyngor Tref Caerfyrddin –** Pwyllgor Mordwyo Bar Caerfyrddin a gynhaliwyd ar $20^{fed}$ Chwefror 2023. Nodwyd.
4. **Cyngor Iechyd Cymunedol Hywel Dda –** Cylchlythyr. Nodwyd.
5. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda –** Gwybodaeth am ddigwyddiad ymgynghori Cynghorau Cymuned a Thref ar $7^{fed}$ Mawrth mewn perthynas â safleoedd posibl ar gyfer ysbyty newydd. Bydd aelodau'n fynych os yn bosibl.
6. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cadarnhad byddai Adolygiad Cymunedol o Gynghorau Cymuned a Thref yn Sir Gaerfyrddin yn cychwyn ar $13^{eg}$ Mawrth. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn ymateb ei fod yn fodlon ar drefniadau presennol y Cyngor.
7. **Llywodraeth Cymru –** Cais am enwebiadau ar gyfer Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Brenin 2024. Nodwyd.
8. **Un Llais Cymru / Cymorth Cynllunio Cymru –** Gwybodaeth am ddigwyddiad ar-lein i'w gynnal ar $22^{ain}$ Mawrth, 'Gwerth Cynllunio a sut mae'n effeithio'n gadarnhaol ar ein Cymunedau Cymraeg'. Enwebwyd y Cyng Meinir James i fynychu a chytunwyd y gost o £40.00.
9. **Un Llais Cymru** – Arolwg Anghenion Hyfforddiant 2023. Bydd y Clerc yn ymateb ar ran y Cyngor.
10. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Ymgynghoriad ar yr $2^{il}$ Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig. Byddai'r mater yn cael ei ystyried gan y Cyngor yn ei gyfarfod nesaf.
11. **Wyneb y ffordd rhwng Bryncoch a Lan** – Roedd y Clerc wedi adrodd pryderon ynglyn a wyneb y ffordd i'r Cyngor Sir ac yr oedd gwaith wedi ei wneud ar y mater. Nodwyd.
12. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cais am bynciau posibl y gallai Pwyllgorau Craffu'r Cyngor eu hystyried. Nodwyd.
13. **Banc Barclays –** Datganiadau. Nodwyd.
14. **Cylchgrawn Chwarae dros Gymru** – Nodwyd.
15. **Cylchgrawn Clerks and Council Direct –** Nodwyd.

**7. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor**

1. Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad pellach ar yr hawliad yswiriant yn ymwneud â difrod i'r ffens.
2. Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i adroddiad ar gyflwr amwynderau'r Cyngor a chytunwyd gwaith arfaethedig i'w wneud gan yr Atgyweiriwr.
3. Nododd y Clerc fod y fainc ar gyffordd ffordd Bolahaul wedi ei difrodi gyda'r bracedi wedi rhydu. Derbyniwyd dyfynbris gan Star Forge i newid y bracedi gyda gost o £240.00 neu amnewid y fainc gyda un dur newydd gyda gost o £380.00. Nodwyd mai cost mainc blastig wedi'i ailgylchu fyddai £500.00 heb ei gosod. Cytunwyd i ofyn i Star Forge amnewid y fainc ar gost o £380.00.
4. Bydd y Clerc yn gofyn i'r Atgyweiriwr atgyweirio'r fainc ger pwmp Llandyfaelog ar fyrder ynghyd â chwblhau paentio meinciau yn y Gymuned.
5. Bydd y Clerc yn gofyn am gyngor ar gynnal a chadw'r Paneli Hanes oedd yn ymddangos fel eu fod yn dirywio.
6. Bydd y Clerc yn ymchwilio am drefnu digwyddiad hyfforddi posibl ar gyfer defnyddio diffibriliwr.

**8. Cytundeb yr Atgyweiriwr**

Cadarnhaodd y Clerc cyfanswm o 28 awr a weithiwyd yn ystod fis Ionawr a Chwefror gyda 2 taliad o £504.00 yn cael ei gymeradwyo.

**9. Digwyddiadau Cymunedol 2023**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2023 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Gerddi;
- Cystadleuaeth Bwgan Brain;
- Coroniad Ei Fawrhydi'r Brenin.

Nododd y Clerc diffyg cynlluniau arian grant ar gyfer y Coroni.

Cytunwyd i symud ymlaen gyda threfniadau Cystadleuaeth Ardd a Bwgan Brain. Awgrymwyd beirniad ar gyfer y Gystadleuaeth Ardd fel Arwyn Edwards, Rhydargaeau

**10. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

1. **Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth Canser –** Cytunwyd rhodd o £50.00.
2. **Mynegodd y Cyng Meinir James ei diddordeb a gwnaed gadael y Cyfarfod ar gyfer yr eitem - YesCymru –** Dim cyfraniad.
3. **Mynegodd y Cadeirydd ei diddordeb a gwnaed gadael y Cyfarfod ar gyfer yr eitem, cymerwyd y Cyng Shan Rees y Gadair ar gyfer y mater - Cruse Sir Gaerfyrddin -** Cytunwyd rhodd o £50.00.

**11. Cyfrifon – Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

| 1. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Chwefror a chostau** | **£679.08** | **£26.00<br>£14.40<br>£7.00<br>£7.65** | **£734.13** | **£274.40** | **£0.00** | **£459.73** |

**2. Michael Leefe** **£504.00** Taliad Ionawr (gweler eitem 8)

| | | |
|---|---|---|
| **3. M Gibbard** | **£100.00** | Arosfan Croesyceiliog |
| **4. Michael Leefe** | **£504.00** | Taliad Chwefror (gweler eitem 8) |
| **5. GGCC** | **£50.00** | Rhodd (gweler eitem 10.1) |
| **6. Cruse** | **£50.00** | Rhodd (gweler eitem 10.3) |

**12. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Nodwyd bod Bute Energy yn cynnal digwyddiad ymgynghori ar 30ain Mawrth mewn perthynas â llwybr grid newydd arfaethedig trwy ddyffryn Tywi yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog.
2. Trafodwyd seiberddiogelwch a'r defnydd o gyfeiriadau e-bost personol ar gyfer busnes y Cyngor.
3. Trafodwyd sbwriel ar ymyl y ffordd ar draws y Gymuned. Bydd y Cyng Meinir James yn gofyn am eglurhad am drefniadau codi sbwriel y Cyngor Sir.
4. Nodwyd bod Ficer Plwyf newydd wedi'i osod, y Tad Jim Flanagan. Bydd y Clerc yn ysgrifennu llythyr o groeso wrth y Cyngor.
5. Byddai cinio blynyddol y Cyngor yn cael ei gynnal ar 14eg Ebrill.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 6ed Ebrill 2023.**